Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? Edrychwch arno yn eich porwr.


# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol





**Rhifyn 261 (Cymru) – 8 Ionawr 2020**

### Ymateb y Comisiwn Etholiadol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Ym mis Tachwedd 2019, lansiodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o'i ystyriaeth o'r Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Ar 6 Ionawr gwnaethom gyhoeddi ein hymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad hwnnw, gan ganolbwyntio ar y darpariaethau yn y Bil sy'n uniongyrchol berthnasol i'n gwaith. Byddwn hefyd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor ar 15 Ionawr i roi tystiolaeth lafar.

### Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: adborth ar ol yr etholiad a chasglu data

Fel yr amlygwyd mewn nifer o Fwletinau diweddar, hoffem glywed am eich barn a'ch profiadau o weinyddu etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac rydym hefyd yn casglu data gweinyddol sy'n ymwneud ag etholiad Seneddol y DU trwy borth ar-lein.

**Adborth gweinyddiaeth etholiadol**

Diolch i bawb sydd eisoes wedi cwblhau'r arolwg. Os hoffech chi roi eich adborth i ni o hyd, y dyddiad cau ar gyfer gwneud hynny yw dydd **Gwener 17 Ionawr 2020.**

Bydd yr arolwg yn debyg i'r rhai a gyhoeddwyd ar ôl etholiadau blaenorol a bydd yn gofyn am eich barn ar wahanol agweddau pwysig ar weinyddiaeth yr etholiad, gan gynnwys cofrestru pleidleiswyr, enwebiadau, diwrnod pleidleisio ei hun a'r cyfrif. Rydym hefyd yn gofyn am eich barn ar y canllawiau a'r gefnogaeth a ddarperir gan y Comisiwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg hwn, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

**Casglu data**

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys


**Ymateb y Comisiwn Etholiadol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Gwybodaeth a dolen ymateb ysgrifenedig y Comisiwn i ymgynghoriad y Pwyllgor.

**Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: adborth ar ol yr etholiad a chasglu data**

Atgoffa ar sut i gyflwyno adborth a data yn dilyn etholiad cyffredinol Seneddol diweddar y DU.

**Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: anfon ffurflenni gwariant ymgeiswyr ymlaen i'r Comisiwn**

Gwybodaeth am anfon ffurflenni gwariant ymgeiswyr ymlaen i'r Comisiwn yn dilyn etholiad cyffredinol Seneddol y DU.

**Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mis Mai 2020: cyhoeddi canllawiau**

Cadarnhad o gyhoeddi canllawiau ar gyfer etholiad Mai 2020.

**Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mis Mai 2020: llawlyfrau gorsaf bleidleisio a ffurflen archebu canllawiau cyflym**

Dolen i ffurflen archebu ar gyfer copïau caled o

Rydym yn casglu data gweinyddol yn ymwneud ag etholiad cyffredinol Seneddol y DU gan ddefnyddio porth ar-lein newydd. Y cam cyntaf yw cofrestru, y gallwch ei wneud trwy'r e-bost sydd wedi'i anfon o research@electoralcommission.org.uk i'ch cyfeiriad e-bost etholiadau awdurdod lleol cyffredinol..

Mae wedi dod i'n sylw y gallai rhai e-byst cofrestru fod wedi mynd i'r e-bost sbam/sothach ar gyfer cyfeiriad e-bost eich awdurdod lleol. Bydd e-bost yn eich atgoffa i gofrestru yn cael ei anfon heddiw (8 Ionawr) o research@electoralcommission.org.uk). Os nad ydych wedi derbyn unrhyw beth ar ôl hynny, cysylltwch â ni. Os dewch chi o hyd i'r e-bost cofrestru yn eich e-bost sbam/sothach, dylech allu newid y gosodiadau fel y bydd gohebiaeth gennym ni yn y dyfodol yn mynd yn uniongyrchol i'ch mewnflwch e-bost.

Ar ôl cofrestru, gallwch gyrchu'r porth gan ddefnyddio'r dudalen fewngofnodi - darperir dolen i'r dudalen honno pan fyddwch chi'n cofrestru. Mae hefyd i'w gael ar ein gwefan ac yn y canllaw defnyddiwr.

Eich enw defnyddiwr yw cyfeiriad e-bost etholiad eich awdurdod lleol (h.y. y cyfeiriad e-bost a dderbyniodd yr e-bost cofrestru). Sylwch, os nad yw'r system yn cydnabod eich enw defnyddiwr, gallwch wirio'r un yr ydym wedi'i restru ar eich cyfer yn y canllaw defnyddiwr, sy'n cynnwys rhestr o holl gyfeiriadau e-bost etholiad yr awdurdod lleol.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno data yw dydd **Gwener 17 Ionawr 2020**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynnau, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

## Etholiad cyffredinol Seneddol y DU: anfon ffurflenni gwariant ymgeiswyr ymlaen i'r Comisiwn

Yn dilyn etholiad Senedd y DU, mae'r ddeddfwriath yn gofyn bod Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn anfon copïau o gofnodion gwariant ymgeiswyr i'r Comisiwn.

Eleni rydym yn cyflwyno dull hawdd ei ddefnyddio i chi gyflenwi'r ffurflenni hyn i ni trwy 'Objective Connect', gwasanaeth rhannu ffeiliau diogel ar-lein.

Bydd rhagor o wybodaeth am sut i gael gafael ar y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu i chi mewn Bwletin unwaith y bydd y dyddiad cau i ymgeiswyr gyflwyno'r ffurflenni hyn i (A)ROs wedi mynd heibio. Byddem yn ddiolchgar os ydych yn aros nes ein bod wedi darparu'r wybodaeth bellach hon ichi cyn cyflwyno unrhyw ffurflenni i ni.

## Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mis Mai 2020: cyhoeddi canllawiau

Ymhellach i Fwletin 251, rydym bellach wedi diweddaru a chyhoeddi yr holl ganllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu cyn yr etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throsedd mis Mai 2020 .

Iawlyfrau gorsaf bleidleisio a chanllawiau cyflym.

**Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r *Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol*.**

**Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data y DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwyd)**

**Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.**

Rydym hefyd wedi diweddaru a chyhoeddi ein canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau sy'n sefyll yn etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Ym mhob achos, nid yw'r canllawiau wedi newid yn sylweddol ers blynyddoedd blaenorol, gyda'r diweddariadau'n canolbwyntio'n bennaf ar adlewyrchu GDPR a newidiadau deddfwriaethol yn dileu'r gofyniad i ymgeiswyr gyhoeddi eu cyfeiriadau cartref ar y papur pleidleisio. Mae'r cofnod newid ar flaen pob Rhan wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed.

Mae adnoddau ategol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ac ymgeiswyr ac asiantau bellach wedi'u cyhoeddi. Bydd dolenni i'r adnoddau yn parhau i fod yn y canllawiau, ac maent hefyd o dan adran adnoddau'r rhan perthnasol o'r canllawiau.

O ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol y disgwylir iddynt gael eu gwneud yn gynnar yn 2020 yn ymwneud ag etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, nid ydym eto wedi cyhoeddi ffurflenni enwebu ar gyfer yr etholiadau hyn. Byddwn yn eich diweddaru mewn bwletin yn y dyfodol pan fydd rhain ar gael.

## Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mis Mai 2020: llawlyfrau gorsaf bleidleisio a ffurflen archebu canllawiau cyflym

Rydym nawr yn casglu archebion ar gyfer copïau caled o lawlyfrau gorsaf bleidleisio a chanllawiau cyflym i'w defnyddio yn etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Y dyddiad cau ar gyfer llenwi'r ffurflen archebu ar-lein yw **dydd Gwener 24 Ionawr 2020**.

Byddwn yn argraffu i archebion felly mae'n bwysig eich bod yn darparu'ch ffigurau i ni erbyn y dyddiad cau.

Nodwch, unwaith i chi gyflwyno'ch ffurflen archebu, ni fyddwch yn gallu newid yr archeb eich hun. Os bydd angen i chi newid eich archeb, cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Byddwn yn cadarnhau amseriad cyflwyno'r copïau caled mewn Bwletin yn y dyfodol.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2020